Fferm Wynt Pen y Cymoedd

Cylchlythyr Cymunedol

Mike Leach, technegydd ym Mhen y Cymoedd

Cronfa Gymunedol Fferm Wynt
PEN Y CYMOEDD
Wind Farm Community Fund CIC

Ystyried heriau diweddar, ac edrych i'r dyfodol

Croeso i rifyn diweddaraf cylchlythyr Cymunedol Fferm Wynt Pen y Cymoedd.

Mae wedi bod yn flwyddyn heriol i bawb mewn gwahanol ffyrdd, ond mae Pen y Cymoedd a'r Gronfa Gymunedol wedi parhau yn gyson yn yr ardal leol; gan ddarparu cefnogaeth ariannol i brosiectau yn y cymunedau y mae'r Fferm Wynt wedi'u gwreiddio ynddynt.

Trwy gydol y pandemig, mae ein tîm ym Mhen y Cymoedd wedi cadw'r 76 tyrbin i droi, wrth sicrhau bod gweithwyr a chontractwyr yn aros yn ddiogel ac yn iach. Yn y cyfamser mae tîm y Gronfa Gymunedol wedi gweithio drwyddi draw i barhau i gefnogi grwpiau cymunedol a busnesau lleol, gan gynnwys darparu cyllid brys i brosiectau sy'n helpu'r rhai mwyaf anghenus yn ystod yr amseroedd anodd hyn.

Nod ariannu brys y Covid oedd diogelu llif arian a chefnogi prosiectau newydd neu amrywiol yn gysylltiedig â'r pandemig. Yn ystod 2020, cefnogodd y Gronfa 40 o fusnesau a grwpiau cymunedol gyda chyllid goroesi Covid o £378,966, a 28 grŵp arall gyda chyllid o £193,898 ar gyfer prosiectau cysylltiedig â chymorth pandemig.

Yn ddiweddarach yn y cylchlythyr, fe glywch yn uniongyrchol gan rai o'r grwpiau cymunedol lleol sydd wedi elwa o'r Gronfa, yn ogystal â chan ein hecolegydd sydd wedi bod yn monitro rhai o'r creaduriaid anhygoel sy'n byw ar y safle.

Yn y cylchlythyr hwn:

- Canolfan Hyfforddi Glyn-nedd – Prosiect Tyfu a Dysgu
- Diweddariad am ddyfarniadau Cronfa Ficro
- Cwrdd â'r Troellwr Mawr Ewropeaidd prin sy'n nythu ar y safle
- Clywed gan Kate Breeze, Cyfarwyddwr Gweithredol y Gronfa Gymunedol

VATTENFALL

Ffocws Cronfa Gymunedol

Yn fwy nag erioed, mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi tynnu sylw at werth ysbryd cymunedol. Wrth wraidd diben y Gronfa mae'r nod o gefnogi a thyfu'r gwaith rhagorol sy'n digwydd – heb fawr o ffanffer fel arfer – ar lefel llawr gwlad.

Gyda chyllideb flynyddol o £1.8 miliwn tan 2043, mae'r gronfa'n cynnig cyfle gwirioneddol a sylweddol i bobl leol fuddsoddi ynddynt eu hunain a'u syniadau – adeiladu ar gyfleoedd a heriau yn eu cymunedau.

Un enghraifft sy'n cwmpasu ethos y gronfa, yw prosiect tyfu a dysgu O Dan yr Awyr Canolfan Hyfforddi Glynnedd. Mae'n arddangosiad gwych o addysg, gweithio mewn partneriaeth a byw'n gynaliadwy yn y gymuned.

Canolfan Hyfforddi Glyn-nedd: O Dan yr Awyr (Under the Sky)

Sicrhaodd y prosiect hwn, sydd wedi'i leoli yn nyffryn uchaf Castell-nedd ac wedi'i arwain gan Ganolfan Hyfforddi Glyn-nedd, ddyfarniad Cronfa Weledigaeth gwerth £194,258 dros bedair blynedd i hyrwyddo tyfu bwyd cymunedol. Nod y cyllid oedd helpu'r elusen i gyflawni 'mudiad bwyd' uchelgeisiol ac amlochrog.

Rhan o apêl y prosiect hwn o safbwynt cyllido yw ei natur wirioneddol a arweinir gan y gymuned, a'i nod i hyrwyddo'r lleoedd tyfu presennol ac annog creu rhai newydd. Mae hyn yn cynnwys aelodau'r gymuned yn gweithio ar y cyd ac yn adeiladu partneriaethau gydag awdurdodau lleol, sefydliadau cymunedol, cynllunwyr a pherchnogion tir preifat i droi tir segur yn erddi cymunedol cynhyrchiol.

Mae'r prosiect hefyd yn cyflwyno gweithgareddau dysgu gwyrdd i ysgolion, meithrinfeydd, grwpiau tyfu cymunedol a rhandiroedd, yn ogystal â thyfu cyfleoedd gwirfoddoli a chynnig cyrsiau a gweithdai garddwriaethol i'r gymuned.

Gweithgareddau Cyn-Covid

Yn dilyn y chwistrelliad cyllid cychwynnol, cychwynnodd y prosiect yn wych trwy sefydlu canolfan yn Rhandiroedd Glyn-nedd ar unwaith lle gallai gwirfoddolwyr gwrdd a mynychu gweithdai. Roedd y gweithgareddau cynnar yn cynnwys adeiladu partneriaethau gyda phedair ysgol gynradd leol a chydweithio â gwirfoddolwyr o'r Gymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol i gasglu sbwriel yng Nglyn-nedd.

Ar ôl y dechrau cryf hwn, oedwyd y prosiect ddiwedd mis Mawrth 2020 oherwydd y clo mawr a gohiriwyd gweithgareddau a oedd wedi'u cynllunio. Fodd bynnag, o Awst 2020 ymlaen, cychwynnodd y gweithgaredd eto. Mae rhai uchafbwyntiau diweddar yn cynnwys:

Gweithio gydag ysgolion partneriaeth

Mae'r tîm wedi bod yn gweithio gydag ysgolion partneriaeth i wneud gwaith sylfaenol a garddio cyffredinol; chwynnu planwyr a phlannu bylbiau gwanwyn, torri coed a llwyni yn ôl ac ail-lunio cromen helyg.

Mae YGG Cwmnedd wedi bod yn rhan o'r prosiect o'r cychwyn cyntaf, gan gynnal ystod o weithgareddau gan gynnwys her ailgylchu, sesiwn plannu mewn mynwentydd a phrosiectau yn y rhandiroedd.

Dywedodd athro o YGG Cwmnedd: "Mae bod yn rhan o Brosiect O Dan yr Awyr wedi rhoi cymaint o gyfleoedd gwych inni ddysgu a gwella ein gofodau ysgol. Rydym wedi gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol, yn ogystal â chymdeithasu â'r ysgolion eraill. Mae bod yn yr awyr agored yn rhan bwysig o'r cwricwlwm yn ogystal â hyrwyddo llesiant."

Plot gardd gymunedol ar y rhandir

Mae'r tîm hefyd wedi bod yn gweithio ar lain yr ardd gymunedol yn y rhandiroedd. Mae hyn wedi bod yn gryn her ac mae wedi cynnwys tocio llwyni ffrwythau a chymryd toriadau pren caled, clirio chwyn a mieri, lefelu llwybrau a llunio cynllun ar gyfer gwelyau newydd yn y twnnel polythen.

Felly, beth sydd nesaf?

Blaenoriaeth y tîm nawr fydd dal i fyny gyda'r ysgolion partneriaeth a'r Grŵp Gwella Cymunedol i gynllunio gweithgareddau wrth symud ymlaen – gan gynnwys planwyr stryd ychwanegol, blodau gwyllt a choed.

Mae'n ymddangos y bydd hi'n ychydig fisoedd prysur ac mae'r Gronfa wrth ei bodd ei bod wedi gallu cefnogi prosiect llawr gwlad mor wych sy'n cael effaith amlwg yn y gymuned.

Diweddariad ar gyllid

Ym mis Mawrth 2021 yn unig, cytunodd Bwrdd Cronfa Gymunedol Fferm Wynt Pen y Cymoedd ar gefnogaeth i 16 busnes trwy'r Gronfa Ficro (i gyfanswm gwerth £52,266), 18 grŵp cymunedol trwy'r Gronfa Ficro (gwerth £58,141) a saith cynnig Cronfa Weledigaeth (gwerth £90,988 mewn grantiau) a £60,000 mewn benthyciadau.

Ymhlith y prosiectau i elwa mae:

Ardal: Rhondda Fawr
Prosiect: Cymdeithas Cymuned Cwmparc
Swm: £21,280

Bydd y prosiect 'Ariannu ein Dyfodol' yn galluogi un aelod newydd o staff, Swyddog Datblygu Gweithgaredd Teulu, i gael pobl yn ôl yn ddiogel i'r cyfleuster, gwneud cysylltiadau â phartneriaid ar draws pen y Cwm a hwyluso gwaith gydag ysgolion.

Ardal: Castell-nedd
Prosiect: Sew Sew Happy
Swm: £2,636

Bydd yr ariannu yn galluogi sefydlu clwb gwnïo yn Aberdulais, a fydd yn creu cyfleoedd i unigolion yn y gymuned gymdeithasu trwy wnïo. Bydd hefyd yn cynnig dosbarthiadau penodol fel sesiynau teulu, sesiynau ieuenctid, sesiynau dechreuwyr a sesiynau galw heibio.

Ardal: Cynon
Prosiect: Hirwaun a Phenderyn Cyngor Cymuned
Swm: £4,090

Atgyweirio a diweddaru hen adeilad yr orsaf dân sy'n eiddo i'r Cyngor Cymuned, er mwyn galluogi parhad y grŵp garddio sydd wedi'i leoli yno yn ogystal â'r siop gymunedol sy'n gwerthu planhigion a chyflenwadau a agorwyd yn ystod y cyfnod clo.

Ardal: Afan
Prosiect: Welsh Diving
Swm: £3,000

Bydd y prosiect yn cefnogi costau i gynnig deifio sgwba i blant yn Nyffryn Afan yn y pwll lleol.

Ardal: Afan
Prosiect: Tonmawr RFC
Swm: £5,000

Bydd cyllid yn galluogi'r buddsoddiad mewn cyfleusterau at ddefnydd cymunedol a rennir.

Ardal: Cynon

Prosiect: Ardal Gwella Busnes (BID) Caru Aberdâr

Swm: £25,000

Gyda ffocws cychwynnol ar wella golwg a theimlad canol y dref, maent yn gobeithio y bydd hyn yn helpu ysbryd cymunedol, yn ymgysylltu â busnesau gyda'r AGB trwy ddangos effaith ar unwaith ac yn helpu'r dref i edrych a theimlo'n barod ar gyfer yr haf wrth i'r cyfnod clo lacio.

Ardal: Rhondda Fach

Prosiect: Nova Coaching

Swm: £1,375

Roedd cyllid yn cynnig costau cychwynnol ar gyfer loga Chwerthin i grwpiau cymunedol ac unigolion, yn ogystal â hyfforddiant bywyd a gyrfa.

Cyflwynwch eich cais am ariannu nawr! Dyddiad Cau Dydd Llun 16 Awst.

Os ydych chi'n gweithio i gryfhau cymunedau neu redeg busnes yn rhannau uchaf Cymoedd Castell-nedd, Afan, Rhondda a Chynnon (yn economaidd, yn gymdeithasol, yn ddiwylliannol neu'n amgylcheddol), efallai y byddwch chi'n gymwys i gael cymorth ariannol o'r Gronfa Gymunedol.

I gael mwy o wybodaeth am y gronfa a sut i wneud cais, naill ai edrychwch ar wefan y Gronfa neu cysylltwch â'r tîm – mae manylion cyswllt llawn i'w gweld ar y clawr cefn.

Cronfa Ficro Gymunedol a Busnes

Grantiau untro o hyd at £5,000

Dyddiad cau: Dydd Llun 16 Awst 2021

Grantiau a benthyciadau Cronfa Weledigaeth

Grantiau o rhwng £5,000 a £150,000 +

Cysylltwch â'r tîm i drafod dyddiadau cau.

Diweddariad Vattenfall: yn pweru adferiad gwyrdd

Gair gan Dan Wills, rheolwr prosiect, Vattenfall

Wrth i ni ddechrau cael cipolwg ar awyr fwy heulog o'n blaenau, mae'n amser da i edrych ar y ffyrdd y gallem ni fel cenedl nawr ganolbwyntio ar ailadeiladu dyfodol gwyrddach. Fel tad i ddau sy'n byw yn lleol, tybed sut y gallwn symud yn gynt i adeiladu dyfodol heb danwydd ffosil.

Dangosodd Covid pa mor hawdd oedd tarfu ar y systemau a'r prosesau sy'n sail i'n heconomi a sut mae cadwyni cyflenwi byd-eang a miliynau o swyddi yn dod i stop mewn chwinciad.

Mae'r, saib byd-eang mawr' wedi golygu ein bod yn gorfod ailfeddwl yn llwyr y ffordd y mae'r byd yn gweithredu ond, yn hytrach na gobeithio y byddwn yn dychwelyd i normal, mae'n gyfle nawr am newid radical.

Mae'n gliriach nag erioed y bydd y sector ynni adnewyddadwy yn rhan allweddol o adferiad gwyrdd, nid yn unig yn creu miliynau o gyfleoedd cyflogaeth, ond hefyd yn cyfrannu at dargedau sero-net byd-eang.

Mae consensws eang y gallai sawl miliwn o swyddi gwyrdd gael eu datgloi yn y DU yn ystod y degawd hwn yn unig, os yw sectorau fel ein un ni yn cael eu graddio i fyny ac yn ceisio cynhyrchu ynni o'r newydd.

Wrth i ni edrych ymlaen at y normal newydd, ein gobaith yw y gwelwn lawer mwy o arloesi mewn ynni adnewyddadwy – i gychwyn adferiad gwirioneddol wyrdd.

Amddiffyn natur a bywyd gwyllt: monitro Troellwyr Mawr Ewropeaidd

Vattenfall wedi ymrwymo i amddiffyn natur a bioamrywiaeth

Mae gennym raglen o fonitro a rheoli cynefinoedd sy'n digwydd trwy gydol y flwyddyn ym Mhen y Cymoedd i sicrhau ein bod yn parhau i gefnogi bywyd gwyllt lleol.

Mae ein harbenigwr ecoleg lleol, Mike Shewring, wedi bod yn monitro bywyd gwyllt a chynefin ym Mhen y Cymoedd ers 2013, gan ddechrau gweithio ymhell cyn i'r tyrbinau cyntaf gael eu gosod. Mae gan Mike brofiad helaeth o'r ystod eang o rywogaethau anhygoel ar y safle, gan gynnwys ystlumod, bodaod y mêl, llygod pengrwn dŵr ac amrywiaeth eang o ieir bach yr haf a gwyfynod.

Fe wnaethon ni ddal i fyny gyda Mike i glywed popeth am y gwaith y mae wedi bod yn ei wneud i ddarganfod mwy am y Troellwr Mawr Ewropeaidd prin sy'n byw ar y safle.

"Nid oes amheuaeth mai o blith yr holl rywogaethau ym Mhen y Cymoedd, y Troellwr Mawr Ewropeaidd yw fy hoff un. Mae hyn yn bennaf oherwydd bod cyn lleied yn hysbys am yr aderyn nosol hynod gyfrinachol hwn.

"Adar mudol yw troellwyr mawr, yn gaeafu yn Affrica Is-Sahara ac yn mudo yn y gwanwyn i fridio mewn lleoliadau ledled gogledd Ewrop. Ond mae i'w gael yn fwy cyffredin mewn ardaloedd rhostiroedd yn y DU.

"Rydyn ni wedi sefydlu bod o leiaf 10 aderyn gwrywaidd yn byw ar y safle, sy'n golygu bod hon yn boblogaeth sylweddol yn y rhanbarth. Credwn mai dim ond tua 300 o Droellwyr Mawr sydd yng Nghymru.

"Mae'r Troellwyr Mawr wrth eu bodd yn bwydo ar y boblogaeth helaeth o wyfynod sy'n byw ym Mhen y Cymoedd, y maen nhw'n eu dal gan ddefnyddio eu ceg anhygoel sy'n debyg i lyffant. Rydym wedi bod yn gweithio i ddeall mwy am ymddygiad yr adar hyn, megis arferion bwydo a llwybrau mudol, er enghraifft defnyddio data tag radio.

"Mae'r Troellwr Mawr yn rhywogaeth sy'n dirywio, felly mae angen i ni wneud popeth o fewn ein gallu i ddeall a helpu i amddiffyn yr adar sydd gennym ar y safle, a helpu i sicrhau ein bod yn gwarchod yr aderyn rhyfeddol ac anghyffredin hwn ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol."

Ffeithiau Fferm Wynt Pen y Cymoedd

76 tyrbin
228 MW

Battery@PyC

yn storio ynni rhag ofn y bydd toriad pŵer

Gweithredol ers 2017

yn pweru 15% o gartrefi Cymru

Yn cynhyrchu digon o drydan i bweru 15% o gartrefi Cymru yn flynyddol (188,000)

£220m wedi'i fuddsoddi

£220m wedi'i fuddsoddi yng Nghymru yn ystod y gwaith adeiladu

Fferm Wynt Pen y Cymoedd Ffeithiau Cronfa Gymunedol

4 cwm (Castell-nedd, Afan, Rhondda, Cynon)

£1.8 miliwn cronfa gymunedol y flwyddyn

£6.9 miliwn o gyllid wedi'i ddyrannu hyd yma

56 o swyddi lleol wedi'u creu a dros 140 wedi'u diogelu

Am bob £1 a fuddsoddir, cynhyrchir £0.47 yn GVA ar gyfer economi Cymru

Cronfa Frys

Dyfarnwyd 68 o Grantiau a Benthyciadau Covid gwerth cyfanswm o £572,864

£20,000 mewn grantiau brys wedi'u rhoi i elusennau lleol yn ystod llifogydd gwanwyn 2020

Cronfa Ficro

Cyfanswm o 321 o grantiau wedi'u dyfarnu

239 o grwpiau cymunedol wedi'u cefnogi

82 o fusnesau wedi'u cefnogi

£979,665 wedi'i ddyfarnu

Cronfa Weledigaeth

Cyfanswm o £5.3 miliwn wedi'i ddyfarnu

78 o brosiectau wedi'u cefnogi

Gair gan Gyfarwyddwr Gweithredol CIC, Kate Breeze

Bydd llawer ohonoch eisoes yn adnabod Kate, a benodwyd yn ddiweddar yn Gyfarwyddwr Gweithredol Cwmni Budd Cymunedol y Gronfa Gymunedol (CBC), naill ai yn ei rôl flaenorol fel Cyfarwyddwr Gweithredol dros dro, neu cyn hynny yn ei rôl fel Gweinyddwr Rhaglen.

Gofynnom i Kate am ddyfodol y CBC a sut y gallwch chi gymryd rhan.

"Fel tîm, mae Bwrdd Pen y Cymoedd, Michelle Noble (Swyddog Cymorth Menter a Chyllid) a minnau eisiau gweld y gronfa hon yn cael effaith wirioneddol nawr ac ymhell i'r dyfodol.

Rydym yn herio ein hunain i fod yn arloesol gyda'r cronfeydd er mwyn darparu'r buddion mwyaf posibl yn y mwyafrif o feysydd. Dyna pam yr ydym yn cynnig benthyciadau neu gymysgedd grant a benthyciad, lle bo hynny'n briodol, er mwyn dyrannu'r arian mor eang â phosib.

Rydym yn targedu ein hymdrechion i gyrraedd y grwpiau/unigolion hynny nad ydynt fel arfer yn ymgysylltu â chyllidwyr prif ffrwd ond sydd â syniadau diddorol, arloesol er budd eu cymuned.

Gallai hyn fod yn uniongyrchol gyda phrosiect cymunedol neu'n anuniongyrchol trwy greu busnes, ac efallai swyddi, wedi'u lleoli yn yr ardal fudd. Mae'r tîm yn edrych ymlaen yn eiddgar i barhau i allu edrych ar gyfleoedd newydd a gwahanol. Rydyn ni eisiau gwybod beth yw eich barn chi – felly os oes gennych chi unrhyw sylwadau neu syniadau yna cysylltwch â ni."

Afan Lodge Ar Agor Nawr

Yn gweini brecwast, cinio, swper a diodydd – saith niwrnod yr wythnos. Beth am roi cynnig ar y Te Prynhawn newydd? Yn newydd sbon ar gyfer haf 2021!

Cymerwyd y Lodge drosodd gan PyC CIC yn 2019, ac yn dilyn gwaith adnewyddu, cafodd ei ail-lansio gan y tîm newydd yn haf 2020.

Felly os nad ydych wedi cael cyfle eto i brofi lletygarwch Lloyd a'i dîm, yna archebwch eich bwrdd nawr.

→ Ewch i www.afanlodge.wales neu ffoniwch

Cyflwyno ein Llysgenhadon Pen y Cymoedd newydd

Fel CBC, rydym yn anelu at gyrhaeddiad llawer mwy gyda'r boblogaeth leol fel y gallwn, dros amser, ehangu ein cyrhaeddiad o fewn cymunedau yn sylweddol. Er mwyn helpu gyda hyn, rydym wedi ymgynnull grŵp newydd o lysgenhadon a all fanteisio ar y bobl a'r lleisiau ar lawr gwlad, ein helpu i roi'r darnau yn eu lle, a chwilio am syniadau ac arloesedd.

Mae'r rhain yn bobl sydd â gwybodaeth wirioneddol am eu cymuned, y problemau a'r cyfleoedd, ac sydd â phresenoldeb ar-lein sydd wedi'i sefydlu neu gysylltiad rheolaidd â'u cymunedau mewn ffyrdd eraill. Bydd ein llysgenhadon yn darparu adborth anffurfiol ac yn gweithredu fel cyswllt rhwng y CBC a chymunedau, gan hyrwyddo cyfleoedd y gronfa i ddarparu cefnogaeth ar lawr gwlad.

→ Gallwch ddarllen mwy am y llysgenhadon ar ein gwefan.

Cysylltwch

Cronfa Gymunedol Fferm Wynt
PEN Y CYMOEDD
Wind Farm Community Fund CIC

Os hoffech wybod mwy am unrhyw beth yn y cylchlythyr neu sut i wneud cais am grant – yna cysylltwch drwy un o'r ffyrdd a ganlyn:

→ Ewch i: www.penycymoeddcic.cymru

→ E-bost: enquiries@penycymoeddcic.cymru

→ Ffoniwch: 01685 878785 / 07458 300123 / 07458 300117

→ Dilynwch ni ar Twitter: @PyCCommunity

→ Ysgrifennwch at: 6 Canolfan Fenter Aberdâr, Depot Road, Aberdâr, CF44 8DL

Vattenfall Wind Power Ltd
BA Wind Hwb, Pen y Cymoedd,
Treorchy, CF42 5SX
www.vattenfall.co.uk

VATTENFALL